**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Digwyddiadau allweddol yn y broses o ddatblygu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Y Cynulliad Cyntaf: 1999 - 2003

Mae'r papur hwn yn darparu amlinelliad o'r dyddiadau allweddol yn arwain at greu Cynulliad Cenedlaethol Cymru a datblygiad y sefydliad wedi hynny.

Mae'n canolbwyntio ar ddigwyddiadau gweinyddol a threfniadaeth ond mae hefyd yn cyfeirio at rhai datblygiadau gwleidyddol a pholisi nodweddiadol.

Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiduedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.**

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn: **www.cynulliadcymru.org/research**

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:

**Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

E-bost: **Research.Service@wales.gov.uk**
Twitter: **@YmchwilCCC**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Digwyddiadau allweddol yn y broses o ddatblygu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Y Cynulliad Cyntaf: 1999 - 2003

Gwasanaeth Ymchwil

# Cynnwys

**1997** ........ **1**

Mai ........ 3
Gorffennaf ........ 3
Medi ........ 3
Tachwedd ........ 3
Rhagfyr ........ 3

**1998** ........ **5**

Ionawr ........ 7
Chwefror ........ 7
Mawrth ........ 7
Ebrill ........ 7
Mai ........ 8
Mehefin ........ 8
Gorffennaf ........ 8
Awst ........ 9
Hydref ........ 9
Medi ........ 9
Hydref ........ 9
Rhagfyr ........ 10

**1999** ........ **11**

Ionawr ........ 13
Mawrth ........ 13
Ebrill ........ 13
Mai ........ 13
Mehefin ........ 15
Gorffennaf ........ 15
Awst ........ 17
Medi ........ 17
Hydref ........ 17
Tachwedd ........ 18
Rhagfyr ........ 18

**2000** ........ **19**

Ionawr ........ 21
Chwefror ........ 21
Mawrth ........ 23
Ebrill ........ 23
Mai ........ 24
Mehefin ........ 24
Gorffennaf ........ 25
Awst ........ 25
Medi ........ 25
Hydref ........ 26
Tachwedd ........ 28
Rhagfyr ........ 28

**2001** ..... **29**

Ionawr ..... 31
Chwefror ..... 31
Mawrth ..... 31
Ebrill ..... 31
Mai ..... 32
Mehefin ..... 32
Gorffennaf ..... 33
Medi ..... 33
Hydref ..... 34
Tachwedd ..... 34

**2002** ..... **35**

Chwefror ..... 37
Mawrth ..... 37
Ebrill ..... 37
Mai ..... 37
Mehefin ..... 38
Medi ..... 38
Hydref ..... 38
Tachwedd ..... 39
Rhagfyr ..... 39

**2003** ..... **41**

Chwefror ..... 43
Mawrth ..... 43
Ebrill ..... 43
Mai ..... 43


AGORWYD GAN EI
OPENED BY HER MAJESTY

# Digwyddiadau allweddol yn y broses o ddatblygu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# 1997



## Mai

**1 Mai**
Etholiad Cyffredinol y DU. Etholir Llywodraeth Lafur sydd ag ymrwymiad maniffesto i gynnal refferendwm ar gael Cynulliad i Gymru.

**15 Mai**
Darlleniad cyntaf *Mesur Refferendwm* (*Yr Alban a Chymru*).
(**Linc i Hansard**)

## Gorffennaf

**22 Gorffennaf**
Cyhoeddi'r Papur Gwyn *Llais dros Gymru*

**31 Gorffennaf**
Rhoddir Cydsyniad Brenhinol i ***Ddeddf Refferenda (Yr Alban a Chymru) 1997***

## Medi

**18 Medi**
Yn y refferendwm ar ddatganoli yng Nghymru, gofynnir i'r etholaeth ddewis rhwng y datganiadau canlynol:

'1. Yr wyf yn cytuno y dylid cael cynulliad i Gymru; neu

2. Nid wyf yn cytuno y dylid cael cynulliad i Gymru'

Canlyniad: Cytuno 50.3%, Anghytuno 49.7%
(**Linc i'r Ddeddf**)

## Tachwedd

**26 Tachwedd**
Darlleniad cyntaf *Mesur Llywodraeth Cymru.*
(**Linc i Hansard**)

## Rhagfyr

**8-9 Rhagfyr**
Ail ddarlleniad *Mesur Llywodraeth Cymru.*
(**Linc i Hansard**)

Penodi Grŵp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol.


15:27

# Digwyddiadau allweddol yn y broses o ddatblygu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# 1998



## Ionawr

**20 Ionawr**
*Mesur Llywodraeth Cymru* – diwrnod cyntaf y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin.
(**Linc i Hansard**)

**21 Ionawr**
*Mesur Llywodraeth Cymru* – ail ddiwrnod y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin.
(**Linc i Hansard**)

**26 Ionawr**
*Mesur Llywodraeth Cymru* – trydydd diwrnod y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin.
(**Linc i Hansard**)

## Chwefror

**2 Chwefror**
*Mesur Llywodraeth Cymru* – pedwerydd diwrnod y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin.
(**Linc i Hansard**)

**3 Chwefror**
*Mesur Llywodraeth Cymru* – pumed diwrnod y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin.
(**Linc i Hansard**)

**25 Chwefror**
*Mesur Llywodraeth Cymru* – chweched diwrnod y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin.
(**Linc i Hansard**)

## Mawrth

**2 Mawrth**
*Mesur Llywodraeth Cymru* – seithfed diwrnod y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin. (**Linc i Hansard**)

**25 Mawrth**
*Mesur Llywodraeth Cymru* – diwrnod cyntaf y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin.
(**Linc i Hansard**)

**26 Mawrth**
*Mesur Llywodraeth Cymru* – ail ddiwrnod y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin / y trydydd darlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin.
(**Linc i Hansard**)

**27 Mawrth**
*Mesur Llywodraeth Cymru* – y darlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi .
(**Linc i Hansard**)

## Ebrill

**17 Ebrill**
Grŵp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi papur ymgynghori, sef *Dweud eich Dweud*, gan ofyn am ymatebion erbyn 29 Mai 1998.

**21 Ebrill**
*Mesur Llywodraeth Cymru* – ail ddarlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi.
(**Linc i Hansard**)

## Mai

**11 Mai**
*Mesur Llywodraeth Cymru* – diwrnod cyntaf y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi.
(**Linc i Hansard**)

## Mehefin

**2 Mehefin**
*Mesur Llywodraeth Cymru* – ail ddiwrnod y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi.
(**Linc i Hansard**)

**3 Mehefin**
*Mesur Llywodraeth Cymru* – trydydd diwrnod y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi.
(**Linc i Hansard**)

**9 Mehefin**
*Mesur Llywodraeth Cymru* – pedwerydd diwrnod y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi.
(**Linc i Hansard**)

**15 Mehefin**
*Mesur Llywodraeth Cymru* – pumed diwrnod y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi.
(**Linc i Hansard**)

## Gorffennaf

**1 Gorffennaf**
*Mesur Llywodraeth Cymru* – diwrnod cyntaf y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi.
(**Linc i Hansard**)

**9 Gorffennaf**
*Mesur Llywodraeth Cymru* – ail ddiwrnod y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi.
(**Linc i Hansard**)

**15 Gorffennaf**
*Mesur Llywodraeth Cymru* – y trydydd darlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi.
(**Linc i Hansard**)

**22 Gorffennaf**
*Mesur Llywodraeth Cymru* - ystyried gwelliannau Tŷ'r Arglwyddi yn Nhŷ'r Cyffredin.
(**Linc i Hansard**)

**29 Gorffennaf**
*Mesur Llywodraeth Cymru* – ystyried Gwelliannau Tŷ'r Cyffredin yn Nhŷ'r Arglwyddi.
(**Linc i Hansard**)

**31 Gorffennaf**
Cydsyniad Brenhinol yn cael ei roi i ***Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998***.

## Awst

**24 Awst**
Cyhoeddi adroddiad Grŵp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol.

## Hydref

Uned gweithredu'r Cynulliad yn cael ei chreu er mwyn sefydlu gweithdrefnau, recriwtio staff ac yn y blaen.

## Medi

**Medi**
Cyfarfod cyntaf Comisiwn y Rheolau Sefydlog.

## Hydref

**7 Hydref**
Cyhoeddi mai Winston Roddick QC fydd Cwnsler Cyffredinol cyntaf y Cynulliad Cenedlaethol.

**20 Hydref**
Ysgrifennydd Gwladol Cymru, y Gwir Anrh. Ron Davies AS, yn datgan ei fod wedi derbyn argymhelliad panel cynllunio adeilad newydd y Cynulliad o blaid Partneriaeth Richard Rogers.

**26 Hydref**
Y Gwir Anrh. Ron Davies AS yn ymddiswyddo fel Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

**27 Hydref**
Penodi'r Gwir Anrh. Alun Michael AS yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

## Rhagfyr

**4 Rhagfyr**
Cyhoeddi papur ymgynghori ar Gofnod y Trafodion, gan wahodd ymatebion erbyn Ionawr 1999.

# Digwyddiadau allweddol yn y broses o ddatblygu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# 1999



## Ionawr

**Ionawr**
Comisiynwyr y Rheolau Sefydlog yn cyflwyno'u hadroddiad i Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

**18 Ionawr**
Staff y Swyddfa Gymreig yn dechrau symud i Dŷ Crughywel.

## Mawrth

**10 Mawrth**
Creu *Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999* (**SI 1999/672**).

Creu *Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 1999* (**SI 1999/450**), sy'n gosod allan y trefniadau ar gyfer etholiadau'r Cynulliad.

**26 Mawrth**
Y Cyngor Ewropeaidd yn datgan bod ardal Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn gymwys ar gyfer statws Amcan Un.

## Ebrill

**12 Ebrill**
Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael eu creu gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru, y Gwir Anrh. Alun Michael AS.

## Mai

**6 Mai**
Etholiadau cyntaf y Cynulliad. (**Canlyniadau'r etholiad**)

Uned ddatganoli'r Swyddfa Gymreig yn dirwyn i ben.

**12 Mai**
Cyfarfod Llawn cyntaf Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

- Etholir yr Arglwydd Elis-Thomas AC (Plaid Cymru) yn Llywydd;
- Etholir Jane Davidson AC (Llafur) yn Ddirprwy Lywydd;
- Etholir y Gwir Anrh. Alun Michael AC AS (Llafur) yn Brif Ysgrifennydd.

## Mai

Penodwyd aelodau Cabinet y Cynulliad:

- Datblygu Economaidd – y Gwir Anrh. Rhodri Morgan AC AS (Llafur);
- Addysg (hyd at 16) - Rosemary Butler AC (Llafur);
- Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol - Jane Hutt AC (Llafur);
- Hyfforddiant ac Addysg ôl-16 - Tom Middlehurst AC (Llafur);
- Amaethyddiaeth a'r Economi Wledig - Christine Gwyther AC (Llafur);
- Amgylchedd (gan gynnwys llywodraeth leol a chynllunio) - Peter Law AC (Llafur);
- Y Trefnydd - Andrew Davies AC (Llafur);
- Cyllid - Edwina Hart AC (Llafur).

**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 12 Mai 1999)**

**19 Mai**
Ethol aelodau Panel Cadeiryddion y Pwyllgorau Pwnc:

- Y Gwir Anrh. Ron Davies AC AS (Llafur) - Datblygu Economaidd;
- Sue Essex AC (Llafur) - Cynllunio a'r Amgylchedd;
- Ieuan Wyn Jones AC AS (Plaid Cymru) - Amaethyddiaeth a Materion Gwledig;
- Cynog Dafis AC AS (Plaid Cymru) - Addysg Ôl-16 a Dysgu Gydol Oes;
- William Graham AC (Ceidwadwyr) - Addysg Cyn-16, Ysgolion ac Addysg Gynnar;
- Kirsty Williams AC (Democratiaid Rhyddfrydol) - Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

(**Linc i Gofnod y Trafodion**)

**26 Mai**
Seremoni Agoriadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a fynychir gan Ei Mawrhydi'r Frenhines, Ei Fawrhydi Brenhinol Dug Caeredin a'i Fawrhydi Brenhinol Tywysog Cymru.

## Mehefin

**16 Mehefin**
Y Cynulliad yn dirprwyo ei swyddogaethau i'r Prif Ysgrifennydd yn unol ag Adran 62(1)b o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.*
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 16 Mehefin 1999)**

Cynhelir cyfarfodydd cyntaf y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig; y Pwyllgor Datblygu Economaidd; a'r Pwyllgor Addysg Cyn 16 Oed, Ysgolion ac Addysg Gynnar.

**23 Mehefin**
Cynhelir cyfarfodydd cyntaf:

- Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol **(Cofnodion)**;
- Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a'r Amgylchedd **(Cofnodion)**; ac
- Y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16. **(Cofnodion)**.

Derbyniwyd cynnig yn y Cyfarfod Llawn i ethol cadeiryddion y pwyllgorau, o dan adrannau 60(3) a (5) *Deddf Llywodraeth Cymru 1998*:

- Janet Davies AC (Plaid Cymru) - Archwilio;
- Michael German AC (Democratiaid Rhyddfrydol) - Deddfau;
- Nicholas Bourne AC (Ceidwadwyr) - Safonau;
- Y Gwir Anrh. Alun Michael AC AS (Llafur) - Materion Ewropeaidd;
- Jane Hutt AC (Llafur) - Cyfle Cyfartal.

**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 23 Mehefin 1999)**

**29 Mehefin**
Cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Deddfau. **(Cofnodion)**

## Gorffennaf

**1 Gorffennaf**
*Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999* yn dod i rym, gan drosglwyddo pwerau Ysgrifennydd Gwladol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. (**SI 1999/672**).

Cynhelir cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Materion Ewropeaidd.

Staff y Swyddfa Gymreig yn trosglwyddo i'r Cynulliad.

Y Swyddfa Gymreig yn dirwyn i ben.

## Gorffennaf

**2 Gorffennaf**
Cynhelir cyfarfodydd cyntaf Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd a Phwyllgor Rhanbarth y De-orllewin. Etholir Gareth Jones AC (Plaid Cymru) yn Gadeirydd Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd a Peter Black AC (Democratiaid Rhyddfrydol) yn Gadeirydd Pwyllgor Rhanbarth y De-orllewin.

**6 Gorffennaf**
Ei Ardderchowgrwydd Mr Philip Lader, Llysgennad Unol Daleithiau America, yn annerch y Cynulliad.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 6 Gorffennaf 1999)**

**9 Gorffennaf**
Cynhelir cyfarfodydd cyntaf Pwyllgor Rhanbarth y Canolbarth a Phwyllgor Rhanbarth y De-ddwyrain. Etholir Glyn Davies AC (Ceidwadwyr) yn Gadeirydd Pwyllgor Rhanbarth y Canolbarth a Jenny Randerson AC (Democratiaid Rhyddfrydol) yn Gadeirydd Pwyllgor Rhanbarth y De-ddwyrain.

**13 Gorffennaf**
Etholir Val Feld AC (Llafur) i gymryd lle'r Gwir Anrh. Ron Davies AC AS fel Cadeirydd y Pwyllgor Datblygu Economaidd. Daw'r etholiad i rym yn syth ar ôl cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Economaidd ar 14 Gorffennaf 1999.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 13 Gorffennaf 1999)**

**20 Gorffennaf**
Y Cynulliad yn cytuno y dylid hysbysu Partneriaeth Richard Rogers y dylai barhau i ddatblygu prosiect adeilad newydd y Cynulliad yn ôl y paramedrau cost a bennwyd.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 20 Gorffennaf 1999)**

**21 Gorffennaf**
Newidiadau i Reolau Sefydlog Rhifau 6.35 a 6.36 ynglŷn â'r Ddadl Fer.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 21 Gorffennaf 1999)**

**22 Gorffennaf**
Cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Safonau.

**29 Gorffennaf**
Penodi Paul Murphy AS yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

## Awst

**10 Awst**
Rod Richards AC yn ymddiswyddo fel arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig.

**18 Awst**
Etholir Nicholas Bourne AC AS yn arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig.

## Medi

**15 Medi**
Y Cynulliad yn gwrthod y cynnig o gerydd a gyflwynwyd gan y Ceidwadwyr Cymreig yn erbyn yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, Christine Gwyther AC.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 15 Medi 1999)**

**21 Medi**
Cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Archwilio.

**23 Medi**
Cynhelir Cyfarfod Llawn drwy'r dydd am y tro cyntaf.

## Hydref

**5 Hydref**
Cyfarfod cyntaf Pwyllgor y Tŷ.

**12 Hydref**
Mr Bob Carr, Prif Weinidog De Cymru Newydd, yn annerch y Cynulliad.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 12 Hydref 1999)**

**19 Hydref**
Y Cynulliad yn derbyn y cynnig o gerydd a gyflwynwyd gan aelodau'r tair gwrthblaid yn erbyn Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig y Cynulliad (Christine Gwyther AC).
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 19 Hydref 1999)**

## Tachwedd

**2 Tachwedd**
Y Cynulliad yn gwrthod y cynnig o ddiffyg hyder yn y Prif Ysgrifennydd, y Gwir Anrh. Alun Michael AC AS, a gyflwynwyd gan y Ceidwadwyr Cymreig.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 2 Tachwedd 1999)**

**9 Tachwedd**
Y Rheolau Sefydlog yn cael eu newid fel y bydd pob pleidlais yn digwydd yn electronig yn y dyfodol.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 9 Tachwedd 1999)**

**15 Tachwedd**
*Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Rhif 2) 1999* yn dod i rym (**SI 1999/2787**).

**24 Tachwedd**
Etholir David Melding AC (Ceidwadwyr) i gymryd lle Nicholas Bourne AC (Ceidwadwyr) fel Cadeirydd y Pwyllgor Safonau.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 24 Tachwedd 1999)**

**30 Tachwedd**
Yr Anrhydeddus Roy MacLaren, Uchel Gomisiynydd Canada, yn annerch y Cynulliad.

Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn gwneud datganiad ar Araith y Frenhines yn y Cyfarfod Llawn.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 30 Tachwedd 1999)**

## Rhagfyr

**8 Rhagfyr**
Is-Ysgrifennydd Seneddol Gwladol Cymru, David Hanson AS, yn annerch y Cynulliad.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 8 Rhagfyr 1999)**

# Digwyddiadau allweddol yn y broses o ddatblygu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# 2000



## Ionawr

**19 Ionawr**
Y Cynulliad yn cymeradwyo newidiadau i Reol Sefydlog Rhif 27 ynghylch pwyllgorau penderfyniadau cynllunio.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 19 Ionawr 2000)**

**25 Ionawr**
Cymeradwyo'r trydydd Gorchymyn trosglwyddo swyddogaethau (**SI 2000/253**).

**26 Ionawr**
Y Cynulliad yn penderfynu bwrw ymlaen â chynllun adeilad newydd y Cynulliad, ar y sail ddiwygiedig a gyflwynwyd yn adroddiad cynnydd rhif 1/2000 ar brosiect adeilad newydd y Cynulliad.

## Chwefror

**9 Chwefror**
Cynnig yn enw Nicholas Bourne AC, Michael German AC, Jocelyn Davies AC, William Graham AC a Jenny Randerson AC, 'nad oes gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru hyder yn y Prif Ysgrifennydd'.

Y Gwir Anrh. Alun Michael AC AS, yn unol â'r Rheolau Sefydlog, yn ymddiswyddo fel Prif Ysgrifennydd.

O dan Reol Sefydlog Rhif 2.10, etholir y Gwir Anrh. Rhodri Morgan AC AS gan y Cabinet yn Brif Ysgrifennydd Gweithredol.

**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 9 Chwefror 2000)**

**15 Chwefror**
Etholir y Gwir Anrh. Rhodri Morgan AC AS yn Brif Ysgrifennydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 15 Chwefror 2000)**

**16 Chwefror**
Swyddogaethau'r trydydd Gorchymyn trosglwyddo swyddogaethau yn cael eu trosglwyddo i'r Prif Ysgrifennydd.

## Chwefror

**22 Chwefror**
Y Gwir Anrh. Rhodri Morgan AC AS yn cyhoeddi penodiadau i'r Cabinet, ynghyd â newidiadau i'r portffolios:

- Y Prif Ysgrifennydd a'r Ysgrifennydd Datblygu Economaidd – Y Gwir Anrh. Rhodri Morgan AC AS (Llafur);
- Y Trefnydd - Andrew Davies AC (Llafur);
- Yr Ysgrifennydd Cyllid - Edwina Hart AC (Llafur);
- Yr Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 - Tom Middlehurst AC (Llafur);
- Yr Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol - Jane Hutt AC (Llafur);
- Yr Ysgrifennydd Addysg a Phlant - Rosemary Butler AC (Llafur);
- Yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig - Christine Gwyther AC (Llafur);
- Yr Ysgrifennydd Llywodraeth Leol a Thai - Peter Law AC (Llafur);
- Yr Ysgrifennydd yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth - Sue Essex AC (Llafur).

**23 Chwefror**
Y Prif Ysgrifennydd yn cyhoeddi bod tri Dirprwy Ysgrifennydd wedi'u penodi i gynorthwyo Ysgrifenyddion Cabinet y Cynulliad gyda'u gwaith yn y meysydd canlynol:

- Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol - Alun Pugh AC (Llafur);
- Amaethyddiaeth, Llywodraeth Leol a'r Amgylchedd - Carwyn Jones AC (Llafur);
- Addysg a'r Economi - Christine Chapman AC (Llafur).

**29 Chwefror**
Y Llywydd yn datgan yn y Cyfarfod Llawn fod David Lambert wedi'i benodi'n gynghorydd cyfreithiol annibynnol i Swyddfa'r Llywydd.

Etholir y Gwir Anrh. Rhodri Morgan AC AS (Llafur) i olynu'r Gwir Anrh. Alun Michael AC AS (Llafur) fel Cadeirydd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 29 Chwefror 2000)**

## Mawrth

**8 Mawrth**
Cyfarfod olaf y Pwyllgor Llywodraeth Leol a'r Amgylchedd.

**14 Mawrth**
Datganiadau'r Prif Ysgrifennydd i'r wasg yn cael eu cyhoeddi am y tro cyntaf.

Etholir Rhodri Glyn Thomas AC (Plaid Cymru) i gymryd lle Ieuan Wyn Jones AC AS (Plaid Cymru) fel Cadeirydd y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 14 Mawrth 2000)**

**15 Mawrth**
Etholir Edwina Hart AC (Llafur) i olynu Jane Hutt AC (Llafur) fel Cadeirydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 15 Mawrth 2000)**

**22 Mawrth**
Yn dilyn cyfarfod grŵp prosiect adeilad newydd y Cynulliad, caiff y prosiect ei ohirio.

**29 Mawrth**
Etholir Richard Edwards AC (Llafur) yn Gadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth, a Gwenda Thomas AC (Llafur) yn Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 29 Mawrth 2000)**

## Ebrill

**5 Ebrill**
Cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

Y Cynulliad yn cymeradwyo newidiadau i'r Rheolau Sefydlog i alluogi'r Llywydd i gyflawni swyddogaethau'r Dirprwy Lywydd, ac i alluogi Aelodau i gofrestru buddiannau drwy'r post.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 5 Ebrill 2000)**

**6 Ebrill**
Cyfarfod cyntaf Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth.

**26 Ebrill**
Cofnodion Cabinet y Cynulliad yn cael eu cyhoeddi am y tro cyntaf, ac yn cael eu rhoi ar y we.

## Mai

**1 Mai**
Y Gwir Anrh. Alun Michael AC AS yn ymddiswyddo fel Aelod Cynulliad ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru.

**9 Mai**
Delyth Evans AC (Llafur), olynydd y Gwir Anrh. Alun Michael AS, yn mynychu ei Chyfarfod Llawn cyntaf fel Aelod Cynulliad dros etholaeth ranbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru.

**17 Mai**
Y trydydd cynnig o gerydd yn erbyn Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig y Cynulliad, Christine Gwyther AC, a gyflwynwyd gan y Ceidwadwyr y tro hwn, yn cael ei wrthod gan y Cynulliad.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 17 Mai 2000)**

**23 Mai**
Y Cynulliad yn cymeradwyo newidiadau i Reol Sefydlog Rhif 19 mewn perthynas â phenderfynu cyllideb y Cynulliad, ac i Reolau Sefydlog Rhifau 22.12 a 27, a fyddai'n caniatáu i femorandwm o gywiriadau gael ei gyflwyno ac i bwyllgor penderfyniadau cynllunio gyfarfod yn ystod y toriad.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 23 Mai 2000)**

## Mehefin

**21 Mehefin**
Y Cynulliad yn ailgadarnhau'r penderfyniad a wnaeth ar 26 Ionawr 2000 ynglŷn ag adeilad newydd y Cynulliad, gan benderfynu bwrw ymlaen â Dewis B fel y'i disgrifiwyd yn y ddogfen '*Gwybodaeth am Broject Adeilad Newydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru*'.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 21 Mehefin 2000)**

**27 Mehefin**
Syr David Steel KBE ASA, Llywydd Senedd yr Alban, yn annerch y Cynulliad.
(**Linc i Gofnod y Trafodion**)

Y Cynulliad yn cymeradwyo newidiadau i Reolau Sefydlog Rhifau 12 a 22, a, thrwy hynny, yn sefydlu trefniadau ar gyfer dirprwyo ar ran aelodau o'r Pwyllgor Archwilio sydd wedi'u datgymhwyso, ac yn cyflwyno'r weithdrefn garlam.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 27 Mehefin 2000)**

## Gorffennaf

**12 Gorffennaf**
Y Prif Ysgrifennydd yn datgan yn y Cyfarfod Llawn y daethpwyd i gytundeb ar gynnal adolygiad trawsbleidiol o weithdrefnau'r Cynulliad gan weithio o fewn fframwaith Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Bydd yn cael ei gyflawni gan grŵp adolygu gweithdrefn y Cynulliad.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 12 Gorffennaf 2000)**

**23 Gorffennaf**
Y Prif Ysgrifennydd yn cyhoeddi newid yn y Cabinet, sef y bydd Carwyn Jones AC yn dod yn Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, gan gymryd lle Christine Gwyther AC.

**24 Gorffennaf**
Penodi Delyth Evans AC (Llafur) yn Ddirprwy Ysgrifennydd Amaethyddiaeth, Llywodraeth Leol a'r Amgylchedd, gan gymryd lle Carwyn Jones AC.

## Awst

**3 Awst**
Ieuan Wyn Jones AC AS yn olynu'r Gwir Anrh. Dafydd Wigley AC AS fel Llywydd Plaid Cymru.

## Medi

**12 Medi**
Dechreuir defnyddio clociau yn y Siambr i amseru cwestiynau a chyfraniadau siaradwyr yn ystod y dadleuon.

Y cynnig o dan Reol Sefydlog Rhif 8.1 i sefydlu Pwyllgor Ymgynghorol Penodi Comisiynydd Plant yn cael ei dderbyn yn y Cyfarfod Llawn. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 8.4 etholir Jane Hutt AC (Llafur) yn Gadeirydd y Pwyllgor.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 12 Medi 2000)**

**14 Medi**
Cynhelir y Cyfarfod Llawn cyntaf ar ddydd Iau o ganlyniad i'r drefn newydd, sef y bydd y cyfarfodydd llawn yn cael eu cynnal ar fore Mawrth a phrynhawn Iau.

**5 Hydref**
Cyhoeddi'r bartneriaeth glymbleidiol newydd rhwng Llafur a'r Democratiaid Rhyddfrydol.

**6 Hydref**
*Rhoi Cymru'n Gyntaf: Partneriaeth ar gyfer Pobl Cymru*, sef y cytundeb partneriaeth rhwng Llafur a'r Democratiaid Rhyddfrydol, yn cael ei gyhoeddi.

**9 Hydref**
Tom Middlehurst AC yn ymddiswyddo fel Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 y Cynulliad.

**10 Hydref**
Y Cynulliad yn pleidleisio i sefydlu Pwyllgor y Tŷ o dan Reol Sefydlog newydd Rhif 28, ac i greu cyllideb ar wahân ar gyfer Swyddfa'r Llywydd yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 19. Golyga hynny fod Swyddfa'r Llywydd yn gyfrifol am rai swyddogaethau yn annibynnol ar weddill y Cynulliad.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 10 Hydref 2000)**

**12 Hydref**
Telir teyrnged i'r Gwir Anrh. Donald Dewar ASA AS, Prif Weinidog yr Alban, a fu farw ar 11 Hydref 2000.

**16 Hydref**
Y Gwir Anrh. Rhodri Morgan AC AS yn cyhoeddi manylion am y Cabinet Partneriaeth newydd:

- Prif Weinidog Cymru – Y Gwir Anrh. Rhodri Morgan AC AS (Llafur)
- Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd - Michael German AC (Democratiaid Rhyddfrydol)
- Y Trefnydd - Andrew Davies AC (Llafur)
- Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau - Edwina Hart AC (Llafur)
- Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes - Jane Davidson AC (Llafur)
- Y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg- Jenny Randerson AC (Democratiaid Rhyddfrydol)
- Y Gweinidog dros yr Amgylchedd - Sue Essex AC (Llafur)
- Y Gweinidog dros Faterion Gwledig - Carwyn Jones AC (Llafur)
- Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – Jane Hutt AC (Llafur)

O ganlyniad i'r ad-drefnu, mae Peter Law AC a Rosemary Butler AC yn gadael y Cabinet.
Y Cabinet yn mabwysiadu'r term 'Gweinidog' yn lle 'Ysgrifennydd'.

## Hydref

**17 Hydref**
Y Prif Weinidog, y Gwir Anrh. Rhodri Morgan AC AS, a Michael German AC yn arwyddo'r cytundeb partneriaeth.

Prif Weinidog Cymru'n cyhoeddi newidiadau pellach i'w dîm gweinidogol, gan benodi'r Dirprwy Weinidogion canlynol:

- Y Dirprwy Weinidog dros Ddatblygu Economaidd - Alun Pugh AC (Llafur)
- Y Dirprwy Weinidog dros Lywodraeth Leol - Peter Black AC (Democrat Rhyddfrydol)
- Y Dirprwy Weinidog dros Iechyd - Brian Gibbons AC (Llafur)
- Y Dirprwy Weinidog dros Faterion Gwledig, Diwylliant a'r Amgylchedd - Delyth Evans AC (Llafur)
- Y Dirprwy Weinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes - Huw Lewis AC (Llafur)
- Cadeirydd Pwyllgor Monitro Amcan Un - Christine Chapman AC.

**19 Hydref**
Etholir Dr John Marek AC AS (Llafur) i gymryd lle Jane Davidson AC fel Dirprwy Lywydd yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 1.13.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 19 Hydref 2000)**

**24 Hydref**
Cynnig Brian Hancock AC (Plaid Cymru) i gyfarwyddo Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 y Cynulliad i gyflwyno is-ddeddfwriaeth ddrafft o dan adran 46(3) Deddf Addysg 1997 yw'r cynnig llwyddiannus cyntaf a wnaed o dan Reol Sefydlog Rhif 29.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 24 Hydref 2000)**

**25 Hydref**
Cynhelir cyfarfodydd olaf y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 a'r Pwyllgor Addysg Cyn-16.

## Tachwedd

**9 Tachwedd**
Etholir aelodau'r pwyllgorau pwnc yn y Cyfarfod Llawn. Etholir y cadeiryddion fel a ganlyn:

- Etholir Cynog Dafis AC AS (Plaid Cymru) yn Gadeirydd y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes.
- Etholir Rhodri Glyn Thomas AC (Plaid Cymru) yn Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant.
- Etholir Glyn Davies AC (Ceidwadwyr) i gymryd lle Rhodri Glyn Thomas AC fel Cadeirydd y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig.
- Etholir Mick Bates AC (Democrat Rhyddfrydol) yn lle Michael German AC (Democrat Rhyddfrydol) yn Gadeirydd y Pwyllgor Deddfau.

**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 9 Tachwedd 2000)**

**10 Tachwedd**
Ail-enwi Swyddfa'r Llywydd yn y Saesneg. Yn lle '*Office of the Presiding Officer*' mabwysiadir yr enw *'Presiding Office'.*

**15 Tachwedd**
Cynhelir cyfarfodydd cyntaf y Pwyllgor Diwylliant a'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes.

**28 Tachwedd**
Y Cynulliad yn cymeradwyo newidiadau i Reol Sefydlog Rhif 6.3, a fyddai'n galluogi'r Gweinidog Cyllid i ateb cwestiynau ar ei chyfrifoldebau sy'n ymwneud â chyllid ar wahân i gwestiynau ar ei chyfrifoldebau eraill.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 28 Tachwedd 2000)**

## Rhagfyr

**5 Rhagfyr**
Y Cynulliad yn cymeradwyo newidiadau i Reol Sefydlog Rhif 22 (Is-ddeddfwriaeth) sy'n rhannu'r rheol yn adrannau ar wahân.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 5 Rhagfyr 2000)**

**6 Rhagfyr**
Cynhelir cyfarfod cyntaf grŵp adolygu gweithdrefn y Cynulliad.

**7 Rhagfyr**
Y Cynulliad yn cymeradwyo newidiadau i Reolau Sefydlog Rhifau 4 a 6.20, sy'n galluogi'r Llywydd i gymryd pleidlais drwy alw'r gofrestr neu drwy ofyn am ddangos dwylo.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 7 Rhagfyr 2000)**

**12 Rhagfyr**
Yr Athletwraig baralympaidd Tanni Grey-Thompson OBE yn annerch y Cynulliad, ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn gwneud datganiad ar Araith y Frenhines.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 12 Rhagfyr 2000)**

# Digwyddiadau allweddol yn y broses o ddatblygu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# 2001



## Ionawr

**18 Ionawr**
Gofynnir y cwestiynau cyntaf i Bwyllgor y Tŷ yn y Cyfarfod Llawn.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 18 Ionawr 2001)**

## Chwefror

**6 Chwefror**
Y Cynulliad yn cymeradwyo newidiadau i ddwy Reol Sefydlog: Rheol Sefydlog Rhif 3, er mwyn galluogi cynrychiolydd o Bwyllgor y Tŷ i gyflwyno a chynnig cynigion sy'n ymwneud â'i swyddogaethau; a Rheol Sefydlog Rhif 6, i adlewyrchu'r newidiadau i Reol Sefydlog Rhif 22 a wnaed ar 5 Rhagfyr 2000.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 6 Chwefror 2001)**

**28 Chwefror**
Lansio canolfan ymwelwyr y Cynulliad yn adeilad y Pierhead.

## Mawrth

**1 Mawrth**
Telir teyrngedau yn y Cyfarfod Llawn i Mr John Lloyd, Clerc y Cynulliad, ar ei ymddeoliad. Y Clerc newydd, Mr Paul Silk, yn dechrau ar ei swydd.

Y Taoiseach, Bertie Ahern TD, yn annerch y Cynulliad.

Cynhelir seremoni 'torri'r dywarchen' ar safle adeilad newydd y Cynulliad.

Y Cynulliad yn cymeradwyo newidiadau i Reol Sefydlog 12 sy'n galluogi'r Llywydd i gyhoeddi canllawiau ar osgoi gwrthdaro buddiannau wrth gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Pwyllgor Archwilio.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 1 Mawrth 2001)**

**31 Mawrth**
Christine Humphreys AC (Democratiaid Rhyddfrydol) yn ymddiswyddo o'r Cynulliad.

## Ebrill

**3 Ebrill**
Eleanor Burnham AC (Democratiaid Rhyddfrydol) yn mynychu ei Chyfarfod Llawn cyntaf ar ôl cymryd lle Christine Humphreys fel Aelod Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru.

**5 Ebrill**
Y Cynulliad yn cymeradwyo newidiadau i Reol Sefydlog Rhif 34 sy'n ei gwneud yn bosibl i Reolau Sefydlog gael eu diwygio dros dro.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 5 Ebrill 2001)**

## Mai

**1 Mai**
Y Cynulliad yn gwrthod y cynnig o gerydd a gyflwynwyd gan y Ceidwadwyr Cymreig yn erbyn y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Jane Hutt AC.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 1 Mai 2001)**

**3 Mai**
Christine Gwyther AC (Llafur) yn cael ei hethol i olynu Val Feld AC (Llafur) fel Cadeirydd y Pwyllgor Datblygu Economaidd.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 3 Mai 2001)**

**8 Mai**
Y Cynulliad yn cymeradwyo newidiadau i Reol Sefydlog Rhif 23.3, sy'n creu gweithdrefn weithredol dros dro i ganiatáu i Weinidog y Cynulliad gymeradwyo is-ddeddfwriaeth a wnaed gan y Cynulliad ar y cyd â Gweinidog y DU, adran Llywodraeth y DU, Gweithrediaeth yr Alban neu Weithrediaeth Gogledd Iwerddon yn ystod argyfwng clwy'r traed a'r genau.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 8 Mai 2001)**

**15 Mai**
Y Cynulliad yn cymeradwyo Rheoliadau Addysg (Estyn Addysg Gyrfaoedd) (Cymru) 2001. Cyflwynwyd y Rheoliadau yn dilyn y cynnig llwyddiannus a wnaed gan Brian Hancock o dan Reol Sefydlog Rhif 29 ar 24 Hydref 2000.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 15 Mai 2001)**

**17 Mai**
Y Cynulliad yn cymeradwyo newidiadau i Reolau Sefydlog Rhifau 6.3 a 6.26 sy'n galluogi Aelodau i gyflwyno cwestiynau i'r Trefnydd ar ei gyfrifoldebau nad ydynt yn ymwneud â busnes y Cynulliad.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 17 Mai 2001)**

## Mehefin

**7 Mehefin**
Y Blaid Lafur yn ennill Etholiad Cyffredinol y DU gyda mwyafrif o 167 o seddi.

**26 Mehefin**
Ni chynhelir Cyfarfod Llawn ar 7 Mehefin oherwydd yr etholiad cyffredinol; o ganlyniad, cynhelir tri Chyfarfod Llawn mewn un wythnos, ar 26, 27 a 28 Mehefin.

Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn gwneud datganiad ar Araith y Frenhines yn y Siambr.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 26 Mehefin 2001)**

## Gorffennaf

**5 Gorffennaf**
Y Cynulliad yn cymeradwyo newidiadau i Reol Sefydlog Rhif 3 fel y gellir gwneud taliadau i'r pleidiau ac fel y gellir gwneud taliadau ychwanegol i Gadeiryddion y pwyllgorau pwnc.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 5 Gorffennaf 2001)**

**6 Gorffennaf**
Mike German AC (Democratiaid Rhyddfrydol) yn sefyll o'r neilltu dros dro fel Dirprwy Prif Weinidog Cymru. Rhodri Morgan AC (Llafur) yn cymryd cyfrifoldeb am ddatblygu economaidd a Jenny Randerson AC (Democratiaid Rhyddfrydol) yn cael ei phenodi'n Ddirprwy Brif Weinidog dros dro.

Rhodri Glyn Thomas AC (Plaid Cymru) yn cael ei ethol yn Gadeirydd Pwyllgor Rhanbarth y De-orllewin.

**12 Gorffennaf**
Y Cynulliad yn cymeradwyo newidiadau i Reol Sefydlog Rhif 23 sy'n ei gwneud yn bosibl i'r weithdrefn weithredol gael ei chyflwyno.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 12 Gorffennaf 2001)**

**17 Gorffennaf**
Ymhellach i'r penderfyniad a wnaeth ar 21 Mehefin 2000, mae'r Cynulliad yn penderfynu: ceisio tendrau cystadleuol ar gyfer cwblhau adeilad y Cynulliad, yn seiliedig ar y dyluniad a baratowyd gan Bartneriaeth Richard Rogers; un ai ei brydlesu i'r Cynulliad neu ei werthu am un swm y cytunwyd arno; a gohirio gwaith ar yr adeilad nes i'r fath dendr gael ei dderbyn.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 17 Gorffennaf 2001)**

**19 Gorffennaf**
Telir teyrngedau yn y Cyfarfod Llawn i'r ddiweddar Val Feld, yr Aelod dros Ddwyrain Abertawe, a fu farw ar 17 Gorffennaf 2001.

Y Cynulliad yn cymeradwyo newidiadau i Reol Sefydlog Rhif 22.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 19 Gorffennaf 2001)**

## Medi

**27 Medi**
Val Lloyd AC yn cael ei hethol yn Nwyrain Abertawe yn isetholiad cyntaf y Cynulliad.

## Hydref

**16 Hydref**
Val Lloyd AC yn mynychu ei Chyfarfod Llawn cyntaf yn dilyn isetholiad Dwyrain Abertawe.

**30 Hydref**
Prif Weinidog y DU, y Gwir Anrh. Tony Blair AS, yn annerch y Cynulliad am y tro cyntaf.

Y Cynulliad yn cymeradwyo newidiadau i Reol Sefydlog Rhif 12, sy'n ymestyn yr amser sydd ar gael i'r Llywodraeth i ymateb i adroddiad gan y Pwyllgor Archwilio; Rheol Sefydlog Rhif 15, sy'n galluogi'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd i ystyried materion o fewn cylch gorchwyl pwyllgor pwnc unigol gyda chaniatâd y pwyllgor hwnnw, ac ychwanegu meithrin perthnasau y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd at ei gylch gorchwyl; a Rheol Sefydlog Rhif 23, sy'n ehangu'r weithdrefn weithredol er mwyn delio ag argyfwng clwy'r traed a'r genau.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 30 Hydref 2001)**

## Tachwedd

**13 Tachwedd**
Y Cynulliad yn cymeradwyo newidiadau i Reol Sefydlog Rhif 6.2 sy'n galluogi'r Cynulliad i gyfarfod am amser penodol yn hytrach nag ar ddiwrnod penodol.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 13 Tachwedd 2001)**

**27 Tachwedd**
Prif Weinidog Cymru'n datgan yn y Cyfarfod Llawn y bydd y term 'Welsh Assembly Government / Llywodraeth Cynulliad Cymru' yn cael ei ddefnyddio yn y dyfodol i ddisgrifio polisïau a gweithredoedd y Cabinet, gan wahaniaethu rhwng rhannau gweithredol a deddfwriaethol y Cynulliad.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 27 Tachwedd 2001)**

# Digwyddiadau allweddol yn y broses o ddatblygu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# 2002



## Chwefror

**5 Chwefror**
Y Cynulliad yn cymeradwyo newidiadau i Reol Sefydlog Rhif 4 ynglŷn â chofrestru buddiannau'r Aelodau.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 5 Chwefror 2002)**

**14 Chwefror**
Argymhellion yr adolygiad o weithdrefn y Cynulliad yn cael eu mabwysiadu yn y Cyfarfod Llawn. Pleidleisiodd y Cynulliad Cenedlaethol yn unfrydol y dylid '*mabwysiadu'r egwyddor y dylid sicrhau'r rhaniad cliriaf posibl a ganiateir gan y ddeddfwriaeth bresennol rhwng y Llywodraeth a'r Cynulliad*'.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 14 Chwefror 2002)**

**26 Chwefror**
Andrew Davies AC (Llafur) yn dod yn Weinidog dros Ddatblygu Economaidd. Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, Carwyn Jones AC (Llafur), yn ymgymryd â dyletswyddau'r Trefnydd.

## Mawrth

**19 Mawrth**
Yr Anrhydeddus Peter Caruana QC, Prif Weinidog Gibraltar, yn annerch y Cynulliad.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 19 Mawrth 2002)**

## Ebrill

**18 Ebrill**
Comisiwn annibynnol yn cael ei sefydlu dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Richard er mwyn ystyried pwerau a threfniadau etholiadol y Cynulliad Cenedlaethol.

Y Cynulliad yn cymeradwyo newidiadau i Reolau Sefydlog Rhifau 6 a 36 er mwyn dileu'r ddarpariaeth ar gyfer gofyn cwestiynau llafar i Bwyllgor y Tŷ.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 18 Ebrill 2002)**

## Mai

**9 Mai**
Jan Olbricht, Marsial Silesia, Gwlad Pwyl yn annerch y Cynulliad.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 9 Mai 2002)**

## Mehefin

**11 Mehefin**
Y Cynulliad yn cymeradwyo newidiadau i Reolau Sefydlog fel y gall y gyfran gyntaf o argymhellion yr adolygiad o weithdrefn y Cynulliad gael ei rhoi ar waith.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 11 June 2002)**

**13 Mehefin**
Ei Mawrhydi'r Frenhines yn annerch y Cynulliad ar achlysur ei Jiwbilî Aur.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 13 Mehefin 2002)**

Mike German AC yn ailymuno â'r Cabinet gan ddod yn Ddirprwy Brif Weinidog unwaith eto.

**18 Mehefin**
Prif Weinidog Cymru'n cyhoeddi newidiadau i'r Cabinet:

- Mike German AC (Democratiaid Rhyddfrydol) yn cael ei benodi'n Weinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor;
- Carwyn Jones AC (Llafur) yn cael ei benodi'n Weinidog dros Lywodraeth Agored. Bydd yn ymgymryd â'r swydd ochr yn ochr â'i ddyletswyddau fel Trefnydd.

**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 18 Mehefin 2002)**

## Medi

**10 Medi**
Rod Richards AC yn ymddiswyddo fel Aelod Cynulliad ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru.

**19 Medi**
David Ian Jones AC yn cymryd lle Rod Richards AC fel Aelod Cynulliad ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru.

## Hydref

**1 Hydref**
Lansio Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau, sy'n ymgorffori Llyfrgell yr Aelodau mewn gwasanaeth ymchwil ehangach ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'r Pwyllgorau.

**23 Hydref**
Penodi'r Gwir Anrh. Peter Hain AS yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

## Tachwedd

**5 Tachwedd**
Y Cynulliad yn cymeradwyo newidiadau i Reolau Sefydlog fel y gall ail gyfran argymhellion yr adolygiad o weithdrefn y Cynulliad gael ei rhoi ar waith.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 5 Tachwedd 2002)**

**19 Tachwedd**
Datganiad personol gan David Melding AC ar ei ymddeoliad fel Cadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 19 Tachwedd 2002)**

**26 Tachwedd**
Lansio delwedd gorfforaethol newydd y Cynulliad Cenedlaethol.

Datganiad gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar Araith y Frenhines.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 26 Tachwedd 2002)**

## Rhagfyr

**3 Rhagfyr**
Arlywydd Iwerddon, Mary McAleese, yn annerch y Cynulliad.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 3 Rhagfyr 2002)**

**18 Rhagfyr**
Y Cynulliad yn cymeradwyo newidiadau i Reol Sefydlog Rhif 36 fel bod modd ailgyfansoddi Pwyllgor y Tŷ.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 18 Rhagfyr 2002)**



# Digwyddiadau allweddol yn y broses o ddatblygu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# 2003



## Chwefror

**12 Chwefror**
Y Cynulliad yn cymeradwyo newidiadau i Reol Sefydlog Rhif 6.9 er mwyn gwneud y weithdrefn ar gyfer dadleuon brys yn fwy eglur.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 12 Chwefror 2002)**

## Mawrth

**19 Mawrth**
Rheol Sefydlog Dros Dro'n cael ei chreu i lywodraethu cyfarfodydd cyntaf yr Ail Gynulliad.

## Ebrill

**1 Ebrill**
Rheol Sefydlog Dros Dro'n cael ei chreu er mwyn galluogi'r Ysgrifennydd Parhaol i greu is-ddeddfwriaeth gyffredinol yn y cyfnod rhwng etholiadau'r Cynulliad ac etholiad y Llywydd.

**3 Ebrill**
Yr athletwr Colin Jackson yn annerch y Cynulliad.
**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 2 Ebrill 2003)**

## Mai

**1 Mai**
Etholiadau'r Cynulliad.
(**Canlyniadau'r etholiad**)